❖ Noswyl Nadolig

Mae llawer o ddeunydd dros yr wythnosau yma wedi eu cyflwyno'n arbennig ar gyfer eglwysi nad ydynt yn arferol yn cynnal oedfaon noswyl y Nadolig neu fore dydd Nadolig. Dodwch y golau 'mlaen eleni, codwch goeden Nadolig, dodwch oleuadau arni a mentrwch arni.

Thema'r oedfa
Sut mae Duw yn achub y blaen ar holl newidiadau bywyd. Gwelwn heddiw bersonoliaethau sydd wedi dwyn goleuni i fywyd.

Darlleniad: Salm 89:1–2, 21–27

Adnodau 1–2: Gwelwn ddathlu cariad a ffyddlondeb Duw.
Adnodau 21–27: Mae yma lawenhau yn y lle arbennig a roed i Dafydd ac ym mharhad ei awdurdod a'i deyrnas. Nid yw hyn ond cysgod gwan iawn o'r hyn mae'r Cristion yn ei weld yn cael ei gyflawni yn Iesu Grist.

Darlleniad: 2 Samuel 7:1–5, 8–11, 16

Mae Dafydd yn dyheu am godi teml fel arwydd o bresenoldeb Duw ymhlith ei bobl. Ond nid yw i godi teml ond caiff godi 'tŷ' – sef palas a 'thŷ brenhinol' sef llinach frenhinol.

Rhywbeth i feddwl drosto yw'r hyn a geir yn adnod 16. Tŷ sefydlog! Teyrnas am byth! Ni allodd fodd bynnag oroesi'r Babiloniaid a'r gaethglud. Mae'r eglwys Gristnogol yn gweld un o linach Dafydd yn cyflawni'r cyfan a gollwyd, sef Iesu – brenin a Mab Duw o linach Dafydd.

Darlleniad: Luc 1:67–79

Mae iachawdwriaeth yn agos.
Mae'r haul yn codi yn y ffurfafen.
Mae trugaredd. Mae rhagluniaeth.

Bu ecsodus. Roedd addewid i Abraham. Bu tŷ i Dafydd ond nawr mae'r cyfan yn dod i gyflawnder.

Nodwch fraint Sachareias trwy ei fab Ioan. Dechreuodd creadigaeth newydd lle mae goleuni'n trechu tywyllwch.

Mae'r hen ŵr yn sefyll wrth drothwy oes newydd.